OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1266

# Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015

**Hysbysiad o benderfyniad yn dilyn adolygiad**

**6.**—(1) Y cyfnod y mae'n rhaid rhoi hysbysiad o benderfyniad yn dilyn adolygiad o dan adran 85 i'r ceisydd o dan adran 85(3) yw—

(a) wyth wythnos o'r diwrnod y gwneir cais am adolygiad, ac eithrio pan fo'r penderfyniad gwreiddiol yn dod o fewn is-baragraffau (b) ac (c);

(b) deng wythnos o'r diwrnod y gwneir cais am adolygiad, pan fo'r penderfyniad gwreiddiol yn dod o fewn adran 80(5) a'r adolygiad yn cael ei wneud gan berson a benodir gan yr awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod a hysbysir;

(c) deuddeng wythnos o'r diwrnod y gwneir y cais am adolygiad mewn achos sy'n dod o fewn rheoliad 4.

(2) Caiff y cyfnod a bennir ym mharagraff (1) fod y cyfryw gyfnod hwy ag y caiff y ceisydd a'r adolygwr gytuno arno yn ysgrifenedig.

(3) Mewn achos sy'n dod o fewn paragraff (1)(c), rhaid i'r person penodedig hysbysu'r awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod a hysbysir am y penderfyniad yn dilyn yr adolygiad, a'r rhesymau amdano, yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o un wythnos ar ddeg o'r diwrnod y gwneir y cais am yr adolygiad, neu o fewn cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw sydd wythnos yn llai na'r hyn y cytunwyd arno yn unol â pharagraff (2).